Cyfnodau Allweddol 2–3

# Hanes

yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Hanes yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

**Cynulleidfa** Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae’r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hanes yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru. Fe’i cyhoeddir yn unol â’r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Camau i’w cymryd** Rhaid i athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiadau a nodir yn y Rhagair.

**Gwybodaeth bellach** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

Cyf: AC/GM/0819
ISBN: 978 0 7504 4423 1
Ionawr
A-EAC-02-01-029/PG
© Hawlfraint y Goron 2008
WG30202

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Cynnwys pob dysgwr | 4 |
| Sgiliau ar draws y cwricwlwm | 6 |
| Dysgu ar draws y cwricwlwm | 8 |
| Dilyniant mewn hanes | 10 |
| Cyfnod Allweddol 2: Rhaglen Astudio | 12 |
| Cyfnod Allweddol 3: Rhaglen Astudio | 14 |
| Targed cyrhaeddiad | 16 |
| Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol | 20 |

# Rhagair

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer **hanes** yng Nghymru.

## Strwythur y cwricwlwm cenedlaethol

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn berthnasol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir. Fe'i trefnir ar sail tri chyfnod allweddol, a dyma nhw yn fras*:

| | Oedran y disgyblion | Grwpiau blwyddyn |
|---|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | 7–11 | 3–6 |
| Cyfnod Allweddol 3 | 11–14 | 7–9 |
| Cyfnod Allweddol 4 | 14–16 | 10–11 |

Yng Nghymru, mae'r pynciau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol yn y cyfnodau allweddol a ddangosir:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. |
| Cyfnod Allweddol 3 | Fel yng Nghyfnod Allweddol 2, ynghyd ag iaith dramor fodern. |
| Cyfnod Allweddol 4 | Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. |

Ar gyfer pob pwnc, ym mhob un o'r cyfnodau allweddol a restrir uchod, mae rhaglenni astudio yn pennu'r hyn y dylid ei addysgu i'r disgyblion ac, ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae targedau cyrhaeddiad yn nodi safonau'r perfformiad a ddisgwylir gan y disgyblion.

Ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, mae safonau perfformiad y disgyblion yn cael eu disgrifio mewn wyth disgrifiad lefel sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae disgrifiad ychwanegol y tu hwnt i Lefel 8 er mwyn helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, defnyddir cymwysterau allanol fel y prif ddull o asesu cyrhaeddiad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Bob blwyddyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi rhestr o gymwysterau sydd, dan Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio gyda disgyblion o oedran ysgol gorfodol.

* Mae'r cyfnodau allweddol yn cael eu diffinio'n fanwl gywir yn Adran 103 Deddf Addysg 2002.

## Cynnwys pob dysgwr

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys adran sy'n sôn am gynnwys pob dysgwr ac mae'n egluro hawl pob dysgwr a chyfrifoldebau ysgolion.

## Dyddiadau gweithredu

Mae'r rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad diwygiedig ar gyfer **hanes** yn dod yn ofynion cyfreithiol trwy gyfrwng Gorchymyn a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe ddônt i rym ar:

- 1 Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8
- 1 Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9.

O'r dyddiadau hyn bydd y cwricwlwm cenedlaethol presennol ar gyfer **hanes** yn cael ei ddisodli.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Ionawr 2008**

# Cynnwys pob dysgwr

## Cyfrifoldebau ysgolion

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod dyletswydd bellach ar ysgolion yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai ysgolion feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylai ysgolion gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai ysgolion ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ysgolion weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ysgolion gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai ysgolion geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai ysgolion gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylai ysgolion ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylai ysgolion hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

## Hawliau dysgwyr

Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu hysgol, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau'r ysgol gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r ysgol addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylai ysgolion ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel sy'n llawer is na'r hyn a ddisgwylir mewn unrhyw gyfnod allweddol, dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu rhaglenni astudio i gyfateb â'r anghenion hynny. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol, am gyfnod dros dro fel arfer. Serch hynny, ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o'r cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

# Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau* ar *gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu hasesu drwy ystod o gymwysterau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

## Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **hanes**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau meddwl trwy ymholi hanesyddol a myfyrio ar gwestiynau allweddol, syniadau a dehongliadau.

## Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **hanes**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu a sgiliau cyfathrebu ehangach trwy ddefnyddio ffynonellau clywedol ac ysgrifenedig a chyflwyno syniadau, safbwyntiau, dadleuon a chasgliadau.

## Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **hanes**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh trwy ddefnyddio technoleg mewn ymholiadau, ac i ddatblygu a chyflwyno eu canfyddiadau.

## Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **hanes**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy ddatblygu ymwybyddiaeth gronolegol, defnyddio confensiynau yn ymwneud ag amser, a defnyddio data, e.e. canlyniadau cyfrifiadau ac ystadegau.

# Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

## Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)

Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **hanes** yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy wneud hanes lleol a hanes Cymru yn ffocws yr astudiaeth a chynorthwyo dysgwyr i ddeall y ffactorau sydd wedi llunio Cymru a gwledydd eraill heddiw.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **hanes** yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy ddatblygu eu sgiliau ymholi a meddwl yn feirniadol; eu dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau a dehongliadau o bobl a digwyddiadau; ac o'r modd y mae pobl wedi effeithio ar eu hamgylchedd yn y gorffennol. Mae'n rhoi cyd-destun hanesyddol i fywydau'r dysgwyr.

## Gyrfaoedd a’r byd gwaith

Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o’r maes gyrfaoedd a’r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau’n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae’n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Bydd **hanes** yn cyfrannu at ymwybyddiaeth y dysgwyr o yrfaoedd a’r byd gwaith trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o’r ffactorau sydd wedi llunio’r byd gwaith yn y gorffennol, sut mae diwygiadau cymdeithasol a diwydiannol wedi digwydd, newidiadau ar draws gwahanol gyfnodau ac o fewn yr un cyfnod, a newidiadau yr ugeinfed ganrif. Hefyd, bydd yn cyfrannu at eu paratoi ar gyfer bywyd gwaith trwy ddatblygu sgiliau dadansoddi tystiolaeth a dadl, canfod tuedd a rhagfarn, a llunio dadl neu ddehongliad o ddigwyddiadau sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

# Dilyniant mewn hanes

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn y Cyfnod Sylfaen (yn cynnwys hanes)

Dylai plant brofi'r byd cyfarwydd trwy ymholi, gan archwilio mewn modd diogel a systematig yr amgylchedd a geir dan do ac yn yr awyr agored. Dylid cynnig profiadau iddynt sy'n eu helpu i gynyddu eu chwilfrydedd ynghylch y byd sydd o'u cwmpas a dechrau deall digwyddiadau'r gorffennol, pobl a lleoedd, pethau byw, a'r gwaith y mae pobl yn ei wneud. Gan ddefnyddio pob un o'u synhwyrau, dylid annog plant i fwynhau dysgu trwy archwilio, ymholi, arbrofi, gofyn cwestiynau a cheisio dod o hyd i atebion. Dylent ddysgu dangos gofal, cyfrifoldeb, consýrn a pharch at bob peth byw a'r amgylchedd. Dylent ddatblygu a defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol. Dylent ddysgu mynegi eu syniadau, eu safbwyntiau a'u teimladau eu hunain gan ddangos dychymyg, creadigrwydd a sensitifrwydd. Dylid datblygu sgiliau'r plant ar draws yr holl Feysydd Dysgu drwy sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau a thrwy ddefnyddio ffynonellau megis storïau, ffotograffau, mapiau, modelau a TGCh.

## Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau. Byddant yn datblygu eu chwilfrydedd am y gorffennol, nodweddion gwahanol gyfnodau yn y gorffennol, o'r cyfnodau cynharaf hyd heddiw, a'r ffyrdd y maent yn wahanol i'w gilydd ac i'r presennol. Byddant yn dysgu drwy ymholi am ffyrdd o fyw gwahanol bobl yn y cyfnodau hanesyddol hyn, gan dynnu ar ddatblygiadau pwysig, digwyddiadau allweddol a phobl nodedig yn eu hardal, yng Nghymru ac ym Mhrydain. Byddant yn cymryd rhan mewn ymholiadau hanesyddol ysgogol a chlir eu ffocws gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys cynrychiolaethau a dehongliadau o'r gorffennol, a threfnu a chyfleu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth gynyddol o ffyrdd.

## Hanes yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddant yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau, ac a fydd yn eu galluogi fel dinasyddion gweithgar i ymdrin â materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Byddant yn dysgu trwy ymholi am brif nodweddion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol detholiad o gyfnodau yn hanes Cymru a hanes Prydain yn ystod y mileniwm diwethaf. Byddant yn gosod y datblygiadau hyn yn eu cyd-destun drwy ymholi i hanes eu hardal eu hunain, i brofiadau hanesyddol gwledydd Prydain, ac i agweddau ar hanes Ewrop a hanes y byd. Byddant yn dysgu am brofiadau amrywiol pobl ym mhob cyfnod a ddewisir, ac yn datblygu eu dealltwriaeth o achosiaeth a newid dros amser. Byddant yn astudio agweddau ar y gorffennol yn fanwl, a gwerthoedd ysbrydol a moesol gwahanol y cyfnodau a astudir. Byddant yn sefydlu eu hymwybyddiaeth gronolegol ac yn defnyddio a gwerthuso ystod o ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. Byddant yn cyfleu a chofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn fwyfwy annibynnol.

## Sgiliau

### Ymwybyddiaeth gronolegol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ddefnyddio llinellau amser i ddilynu digwyddiadau
2. defnyddio'r geiriau allweddol priodol i amcangyfrif, mesur a disgrifio treigl amser.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau
2. nodi pobl allweddol a disgrifio digwyddiadau o fewn ac ar draws cyfnodau
3. deall pam mae pobl wedi gwneud pethau, beth achosodd ddigwyddiadau penodol a chanlyniadau'r digwyddiadau hynny.

### Dehongliadau o hanes

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol
2. gwahaniaethu rhwng 'ffaith' a 'barn', gan gynnig rhai rhesymau dros hyn yn seiliedig ar dystiolaeth/gwybodaeth.

## Ystod

**Dylai'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol trwy ddysgu am ystod o gyd-destunau hanesyddol. Dylai'r rhain fod yn seiliedig yn bennaf ar yr ardal leol o fewn cyd-destun ehangach Cymru, ond gan gynnwys enghreifftiau o Brydain a gwledydd eraill. Dylai'r ffocws fod ar nodweddion bywyd bob dydd yn ystod y cyd-destunau a ddewiswyd. Dylid astudio un agwedd ar fywyd bob dydd (naill ai tai a chartrefi neu fwyd a ffermio neu gludiant) ymhob cyd-destun.**

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

- **astudio**
  - bywyd bob dydd pobl yn byw **naill ai** yn amser Celtiaid yr Oes Haearn **neu'r** Rhufeiniaid
  - bywyd bob dydd pobl yn byw **naill ai** yn Oes y Tywysogion **neu** yn amser y Tuduriaid **neu** amser y Stiwartiaid
  - newidiadau i fywydau bob dydd pobl yn yr ardal leol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg
  - y gwahaniaethau ym mywydau bob dydd pobl mewn dau gyfnod cyferbyniol yn yr ugeinfed ganrif

## Ymholi hanesyddol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol

**2.** cynllunio'r dull ymchwilio i'w ddefnyddio, gan awgrymu ffordd o ganfod gwybodaeth berthnasol

**3.** defnyddio ystod o ffynonellau gan gynnwys TGCh, *e.e. arteffactau, adeiladau a safleoedd, oedolion yn trafod eu gorffennol eu hunain, ffynonellau gweledol, data a ffynonellau ysgrifenedig priodol*

**4.** myfyrio ar eu canfyddiadau a'r dull ymchwilio a ddefnyddiwyd.

## Trefnu a chyfathrebu

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

**1.** ddewis, cofnodi, a threfnu gwybodaeth hanesyddol

**2.** cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys TGCh, *e.e. graffiau, siartiau, ysgrifennu estynedig, cyflwyniadau gweledol a llafar*.

- **cynnal**
  - ymchwiliadau i hanes o'u cwmpas ac i fywyd pobl mewn gwahanol gyfnodau a lleoedd yn y gorffennol

- **gofyn ac ateb y cwestiynau**
  - beth wyddoch chi am fywyd yn y cyfnod hwn; sut gwyddoch chi hyn a sut gallwch chi ganfod mwy?
  - sut fath o fywyd oedd gan bobl gyfoethog a thlawd, dynion, gwragedd a phlant, *e.e. tai, bwyd a ffermio, cludiant, addysg, dillad, dathliadau, arferion amser hamdden?*
  - a fu newidiadau sylweddol ym mywydau pobl yn y cyfnod hwn, ac os fu, pam?
  - sut mae bywydau pob dydd pobl yn y cyfnod hwn wedi'u cynrychioli a'u dehongli a pham?
  - pa effaith gafodd pobl y cyfnod hwn ar eu hamgylchedd?

## Sgiliau

### Ymwybyddiaeth gronolegol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ddefnyddio ystod o fframweithiau cronolegol
2. esbonio cysylltiadau rhwng pobl, digwyddiadau a newidiadau o fewn ac ar draws y cyfnodau a astudir
3. defnyddio geirfa arbenigol i ddisgrifio cyfnodau hanesyddol a threigl amser.

### Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. nodi nodweddion y cyfnodau gan gynnwys TGCh, y sefyllfaoedd a'r cymdeithasau a astudir, a'r amrywiaeth o brofiad ym mhob un ohonynt
2. disgrifio, dadansoddi ac esbonio patrymau a pherthnasoedd, *e.e. achosion a chanlyniadau'r digwyddiadau, y sefyllfaoedd a'r newidiadau hanesyddol a astudir*
3. gwerthuso arwyddocâd y prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau a astudir.

### Dehongliadau o hanes

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ystyried gwahanol safbwyntiau a chynrychiolaethau o rai digwyddiadau, pobl a newidiadau hanesyddol, a deall sut a pham y maent wedi'u dehongli yn y ffyrdd hyn
2. cymhwyso'u gwybodaeth hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso dehongliadau
3. adnabod a dechrau asesu pam y mae rhai dehongliadau hanesyddol yn fwy dilys nag eraill.

## Ystod

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau hanesyddol ac adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion bywyd bob dydd yn y gorffennol drwy ffocysu ar hanes gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol yn y cyd-destunau canlynol.**

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

- **archwilio a dehongli'r cyd-destunau hanesyddol canlynol mewn trefn gronolegol**
  - sut effeithiodd dyfodiad y Normaniaid ar Gymru a Phrydain rhwng 1000 a 1500
  - y newid a'r gwrthdaro yng Nghymru a Phrydain rhwng 1500 a 1760
  - y newidiadau a ddigwyddodd yng Nghymru, Prydain a'r byd ehangach rhwng 1760 a 1914 ac ymateb pobl iddynt
  - sut mae rhai unigolion a digwyddiadau'r ugeinfed ganrif wedi llunio ein byd heddiw
- **cynnal**
  - ymchwiliadau i faterion hanesyddol ar ystod o raddfeydd, o'r lleol i'r rhyngwladol

## Ymholi hanesyddol

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ofyn ac ateb cwestiynau allweddol
2. adnabod strategaethau ar gyfer ymholi hanesyddol
3. defnyddio'n annibynnol ystod o ffynonellau hanesyddol yn eu cyd-destunau hanesyddol, gan gynnwys dogfennau, arteffactau, ffynonellau gweledol, adeiladau a safleoedd, cerddoriaeth a disgrifiadau llafar, ystadegau a data rhifiadol, dehongliadau a chynrychioliadau, ac amrywiaeth o ffynonellau TGCh
4. dethol a chrynhoi gwybodaeth yn gywir o ffynonellau
5. cofnodi a gwerthuso'r wybodaeth a gasglwyd, gan ddod i gasgliadau rhesymegol.

## Trefnu a chyfathrebu

**Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:**

1. ddewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol gydag annibyniaeth a chywirdeb cynyddol
2. dechrau trefnu syniadau a dadleuon i'w cynorthwyo i ddeall y materion a'r datblygiadau hanesyddol a astudir
3. defnyddio'r eirfa angenrheidiol i gyflwyno canfyddiadau, syniadau a safbwyntiau gydag annibyniaeth cynyddol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ysgrifennu estynedig, graffiau, siartiau, diagramau, cyflwyniadau gweledol a llafar, ac ystod o TGCh.

- **gofyn ac ateb cwestiynau**
  - pa wybodaeth hanesyddol sydd gennych am y cyfnod hwn; sut cawsoch chi'r wybodaeth a beth arall hoffech chi ei wybod?
  - beth oedd y newidiadau allweddol yn y cyfnod hwn; pa effaith gafodd y newidiadau hyn yn eich ardal leol, Cymru, Prydain, a lle bo hynny'n berthnasol, y byd?
  - beth yw'r gwahanol farnau am y cyfnod hwn? Pam y mae'r farn yn amrywio? Pa farn sydd fwyaf dilys yn eich barn chi?
  - pa gysylltiadau pwysig allwch chi eu gweld o fewn y cyfnod hwn ac ar draws cyfnodau eraill a astudiwyd gennych?
  - beth yw arwyddocâd y cyfnod hanesyddol hwn i'n byd ni heddiw?

## Disgrifiadau lefel

Mae'r disgrifiadau lefel canlynol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad a ddylai fod yn nodweddiadol o'r disgyblion sy'n gweithio ar lefel benodol. Wrth benderfynu ar lefel cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau lefel cyfagos.

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, dylai perfformiad y mwyafrif mawr o'r disgyblion ddod o fewn ystod Lefelau 2 i 5, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 o fewn yr ystod 3 i 7. Mae Lefel 8 ar gael i ddisgyblion galluog iawn ac, i helpu athrawon i wahaniaethu Perfformiad Eithriadol yng Nghyfnod Allweddol 3, darperir disgrifiad uwchlaw Lefel 8.

### Lefel 1

Bydd y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r gorffennol yn eu bywydau eu hunain ac ym mywydau pobl eraill. Dangosant eu hymwybyddiaeth cynyddol o gronoleg drwy osod ychydig o ddigwyddiadau a gwrthrychau mewn dilyniant, a thrwy ddefnyddio termau bob dydd am dreigl amser. Gwyddant am ddigwyddiadau mewn storïau am y gorffennol a gallant eu disgrifio. Byddant yn dechrau adnabod cynrychiolaethau o'r gorffennol, ac yn dechrau dod o hyd i atebion i gwestiynau syml am y gorffennol o ffynonellau. Byddant yn adnabod ac yn grwpio darnau o wybodaeth i gyfleu eu hymwybyddiaeth o'r gorffennol.

### Lefel 2

Bydd y disgyblion yn dangos eu hymwybyddiaeth gynyddol o gronoleg trwy ddefnyddio termau sy'n gysylltiedig â threigl amser, trwy osod digwyddiadau a gwrthrychau yn eu trefn a thrwy wahaniaethu rhwng agweddau ar eu bywydau eu hunain ac adegau yn y gorffennol. Dangosant wybodaeth o agweddau ar y gorffennol ac o rai o'r prif ddigwyddiadau a phobl y maent wedi eu hastudio. Byddant yn dechrau sylweddoli bod rhesymau sy'n esbonio pam y gweithredodd pobl yn y gorffennol fel y gwnaethant a bod gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol. Byddant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am y gorffennol drwy wneud arsylwadau syml o ffynonellau hanesyddol. Byddant yn dechrau dewis, trefnu a chyfleu darnau o wybodaeth am y gorffennol.

### Lefel 3

Bydd y disgyblion yn dangos eu dealltwriaeth o gronoleg gan eu bod yn fwyfwy ymwybodol o'r ffaith fod modd rhannu'r gorffennol yn wahanol gyfnodau amser, a'u bod yn adnabod rhai o nodweddion tebyg a gwahanol y cyfnodau hynny. Dangosant wybodaeth am rai o'r prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau a astudir. Byddant yn dechrau cynnig ychydig o resymau dros y prif ddigwyddiadau a newidiadau, a'u canlyniadau. Nodant rai o'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli'r gorffennol. Byddant yn gofyn cwestiynau am y gorffennol ac yn cynnig dulliau o ganfod atebion drwy ddefnyddio ffynonellau hanesyddol, ac yn dewis, trefnu a chyfleu gwybodaeth hanesyddol mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys TGCh.

## Lefel 4

Bydd gwaith y disgyblion yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o agweddau ar hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill. Defnyddiant hynny i ddisgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol ac i nodi newidiadau o fewn ac ar draws cyfnodau. Disgrifiant rai o'r prif ddigwyddiadau, pobl a newidiadau. Rhoddant rai o achosion a chanlyniadau'r prif ddigwyddiadau a newidiadau gan ddechrau gwneud cysylltiadau rhyngddynt. Dangosant sut mae rhai agweddau ar y gorffennol wedi cael eu cynrychioli a'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Dechreuant ddethol a chyfuno gwybodaeth o ffynonellau hanesyddol i gefnogi ymholiad hanesyddol a gwerthuso ei lwyddiant. Dechreuant gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau'n briodol.

## Lefel 5

Bydd gwaith y disgyblion yn dangos dyfnder cynyddol o wybodaeth a dealltwriaeth o agweddau ar hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill. Defnyddiant hynny i ddisgrifio nodweddion cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol, ac i ddechrau nodi'r cysylltiadau rhyngddynt. Disgrifiant ddigwyddiadau, pobl a newidiadau. Disgrifiant achosion a chanlyniadau perthnasol digwyddiadau a newidiadau, a nodant gysylltiadau rhyngddynt. Gwyddant fod rhai digwyddiadau, pobl a newidiadau wedi'u dehongli mewn gwahanol ffyrdd ac awgrymant resymau posibl dros hynny. Gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, bydd y disgyblion yn dechrau gofyn cwestiynau hanesyddol a gwerthuso ffynonellau hanesyddol. Bydd y disgyblion yn nodi'r rhai sy'n ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau penodol ac yn gwerthuso llwyddiant eu strategaethau. Byddant yn dewis a threfnu gwybodaeth i gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a rhai termau arbenigol yn briodol.

## Lefel 6

Bydd y disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill, i ddisgrifio cymdeithasau a chyfnodau yn y gorffennol ac i nodi cysylltiadau rhwng nodweddion o fewn ac ar draws cyfnodau. Byddant yn archwilio ac yn dechrau dadansoddi achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau. Bydd y disgyblion yn disgrifio gwahanol ddehongliadau hanesyddol o ddigwyddiadau, pobl a newidiadau ac yn dechrau eu hesbonio. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddatblygu trywyddau ymholi, ac yn nodi ac yn gwerthuso ffynonellau hanesyddol gan eu defnyddio'n feirniadol i lunio ac ategu casgliadau. Byddant yn gwerthuso eu gwaith ac yn ystyried y dulliau a ddefnyddir ganddynt. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i gynhyrchu gwaith strwythuredig, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau arbenigol yn briodol.

# Targed cyrhaeddiad

## Lefel 7

Bydd y disgyblion yn nodi cysylltiadau rhwng eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth amlinellol a manwl o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill. Defnyddiant hynny i ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng nodweddion cyfnod neu gymdeithas benodol ac i ddadansoddi achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau. Esboniant sut a pham y mae gwahanol ddehongliadau hanesyddol wedi'u cynhyrchu. Bydd y disgyblion yn dechrau dangos annibyniaeth wrth ddatblygu strategaethau i ddilyn trywyddau ymholi. Byddant yn nodi ac yn gwerthuso ffynonellau hanesyddol gan eu defnyddio'n feirniadol mewn perthynas â chwestiynau penodol. Dechreuant lunio a myfyrio ar eu casgliadau cadarn hwy eu hunain. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i lunio naratifau, disgrifiadau ac esboniadau celfydd eu strwythur, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau arbenigol yn briodol.

## Lefel 8

Bydd y disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth amlinellol a manwl o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill i ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng digwyddiadau, pobl a newidiadau, a rhwng nodweddion cymdeithasau yn y gorffennol. Gosodant eu hesboniadau a'u dadansoddiadau o achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach. Byddant yn dadansoddi ac yn esbonio gwahanol ddehongliadau hanesyddol, ac yn dechrau eu gwerthuso. Gan ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth, defnyddiant ffynonellau hanesyddol yn feirniadol. Byddant yn diffinio, cynnal a gwerthuso ymchwiliadau i dopigau hanesyddol gan lunio yn annibynnol eu casgliadau cadarn hwy eu hunain. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio gwybodaeth berthnasol i gynhyrchu naratifau, disgrifiadau ac esboniadau sy'n gyson gelfydd eu strwythur, gan ddefnyddio dyddiadau a thermau arbenigol yn briodol.

## Perfformiad Eithriadol

Bydd y disgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth helaeth a manwl o hanes Cymru a Phrydain a meysydd cynnwys eraill i ddadansoddi'r perthnasoedd rhwng ystod eang o ddigwyddiadau, pobl, syniadau a newidiadau a rhwng nodweddion cymdeithasau yn y gorffennol. Gosodant eu hesboniadau a'u dadansoddiadau o achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau yn eu cyd-destun hanesyddol ehangach a bydd sylfaen gadarn iddynt. Byddant yn dadansoddi cysylltiadau rhwng digwyddiadau a datblygiadau a ddigwyddodd mewn gwledydd gwahanol ac mewn cyfnodau gwahanol. Byddant yn ffurfio barn gytbwys am werth dehongliadau gwahanol o ddigwyddiadau a datblygiadau hanesyddol mewn perthynas â'u cyd-destun hanesyddol. Gan dynnu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol, byddant yn defnyddio ffynonellau hanesyddol yn feirniadol ac yn gwneud ymholiadau ynghylch topigau hanesyddol. Byddant hefyd, yn annibynnol, yn llunio ac yn cynnal casgliadau cadarn, cytbwys yn seiliedig ar ddadansoddiad hanesyddol. Byddant yn dewis, trefnu a defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol i gynhyrchu naratifau, disgrifiadau ac esboniadau sy'n gyson gelfydd eu strwythur, gan ddefnyddio dyddiadau ac ystod o dermau arbenigol soffistigedig yn briodol.

# Deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol canlynol yn anstatudol. Cawsant eu hysgrifennu i gydnabod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 1. Mae Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1, 2 a 3 yn cydredeg â Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 1, 2 a 3.

| Cyfnod Sylfaen | Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---|---|
| Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen | Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen | Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen | Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol |
| Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen | Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol |

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai disgyblion sy'n gweithio ar ddeilliant penodol eu dangos yn nodweddiadol. Wrth benderfynu ynghylch deilliant cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol, dylai athrawon farnu pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad y disgybl. Dylid ystyried pob disgrifiad ar y cyd â'r disgrifiadau ar gyfer deilliannau cyfagos.

## Deilliant 1

Bydd y disgyblion yn archwilio eu hamgylchedd agos a chyfarwydd ac yn defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu eu harsylwadau. Byddant yn eu hadnabod eu hunain a phobl gyfarwydd mewn lluniau a straeon ac yn dangos gwybodaeth o arferion dyddiol. Bydd y disgyblion yn dechrau defnyddio offer sylfaenol a chasglu adnoddau cyfarwydd.

## Deilliant 2

Bydd y disgyblion yn dechrau grwpio gwrthrychau ynghyd, gan adnabod nodweddion tebyg. Byddant yn trin amrywiaeth o offer a deunyddiau ac yn archwilio sut i'w defnyddio'n ddiogel i wneud adeiladweithiau syml. Bydd y disgyblion yn gwneud dewisiadau syml ac yn ymateb i gwestiynau ('beth?', 'ble?') ynghylch digwyddiadau diweddar a straeon cyfarwydd. Byddant yn cynnig eu syniadau eu hunain, gan wneud cysylltiadau â phrofiadau blaenorol weithiau. Bydd y disgyblion yn dechrau cydweddu gweithgareddau penodol ag adegau penodol o'r dydd neu'r wythnos a dangos rhyw werthfawrogiad o wahaniaethau rhwng heddiw a ddoe. Byddant yn magu hyder wrth ganfod eu ffordd mewn amgylchedd cyfarwydd, gan ddatblygu gwybodaeth o swyddogaethau pobl gyfarwydd yn yr ysgol a'r gymuned leol.

## Deilliant 3

Bydd y disgyblion yn trefnu gwrthrychau yn ôl meini prawf syml a, gyda chymorth, yn torri, siapio a chydosod y rhain yn ddiogel i wneud cynhyrchion syml sy'n ystyrlon iddynt. Byddant yn cyfleu eu gwybodaeth cynyddol am eitemau a ddefnyddir bob dydd ac yn gofyn yn aml 'sut?' a 'pham?'. Efallai y bydd y disgyblion yn awgrymu ble i gael hyd i wybodaeth ac yn dechrau cofnodi eu harsylwadau a'u bwriadau gan ddefnyddio symbolau, lluniau neu ymadroddion syml. Byddant yn cyfrannu at gynllunio gweithgareddau'r dyfodol ac yn dechrau gwneud rhagfynegiadau trwy feddwl am eu profiadau blaenorol a'u trafod. Trwy holi, bydd y disgyblion yn gallu adnabod newidiadau yn eu hamgylchedd ac mewn deunyddiau, nodweddion naturiol, lluniau ac arteffactau. Byddant yn gallu dilyn cyfarwyddiadau syml a rhoi digwyddiadau mewn straeon a gweithgareddau creadigol mewn dilyniant. Bydd y disgyblion yn dechrau defnyddio termau bob dydd am eu hamgylchedd a threigl amser, gan gofio digwyddiadau arwyddocaol yn y gorffennol ac edrych ymlaen at ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Nodiadau